Legal Aid Agency

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Cadw neu adennill o dan y tâl statudol a chais i ohirio gorfodaeth

## Manylion eich cleient

**Ein cyfeirnod achos:** ______

Teitl: ______ Enw(au) cyntaf: ______ Cyfenw: ______

Dyddiad geni: ___/___/___

**A yw'r adroddiad hwn yn cynnwys mwy nag un dystysgrif? Os ydyw, rhowch rifau cyfeirnod yr achosion eraill:**

## Eich manylion

Rhif cyfrif: ☐☐☐☐☐☐ Rhif rhôl: ☐☐☐☐☐☐

Enw'r corff: ______

Cyfeirnod eich achos: ______

Enw cyswllt ar gyfer ymholiadau: ______

## Canlyniad yr achos

Bydd cleient yn adennill eiddo os bydd ei hawliad yn llwyddiannus ac yn ei gadw os bydd hawliad ei wrthwynebydd yn methu'n llwyr neu yn rhannol. Bydd y swyddfa ranbarthol yn defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen hon i'w helpu i benderfynu:

- pa eiddo oedd dan sylw yn ystod yr achos, neu a amnewidiwyd am eiddo dan sylw;
- o'r eiddo hwnnw, beth a enillwyd neu a gadwyd gan y cleient,
- beth yw ei werth,
- p'un ai i gytuno i ohirio talu'r gost.

Gellir defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen hon hefyd i ddweud wrth y swyddfa ranbarthol:

- sut mae canlyniad yr achos yn cymharu ag amcangyfrif eich cwmni o'i ragolygon ar gyfer llwyddo,
- a oedd y gost yn cyfiawnhau'r budd,
- a yw eich cwmni wedi cydymffurfio â'r rheoliadau i sicrhau'r gost, a'r wybodaeth y mae ei hangen i sicrhau'r gost trwy gofrestru

Efallai y bydd y swyddfa ranbarthol yn oedi talu eich cais nes ei bod yn fodlon i'r gost gael ei thalu neu ei sicrhau yn ei chyfanrwydd.

**Pan fo'ch cleient wedi talu digon o arian i ofalu am y gost cyflwynwch dudalennau 1-3 yn unig. Pan fo'ch cleient yn gofyn i ni ohirio gorfodi'r gost rhaid cwblhau gweddill y ffurflen a'i llofnodi.**


© Hawlfraint y Goron

## Beth oedd dan sylw yn yr achos?

4 Rhowch grynodeb o'r achos/achosion ac unrhyw wrth-hawliad(au) a/neu gonsesiwn/consesiynau a wnaed yn ystod yr achos, gan gynnwys anghydfodau neu gonsesiynau yn y plediadau, affidafidiau a gohebiaeth.

4 Rhestrwch yr asedau, eu gwerth ac yn enw(au) pwy y cânt eu dal.

4 Nodwch yr hyn yr oedd pob parti yn ei geisio ar y cychwyn ac ar unrhyw bwynt yn ystod yr achos. Cynhwyswch a oedd y parti yn ceisio gorchymyn ar gyfer gwerthu neu feddiannu tir (gan gynnwys ty, fflat neu safle busnes). (Parhewch â'r adran hon ar ddalen wahanol os bydd hynny'n ofynnol).

## Beth oedd canlyniad yr achos?

4 Darparwch gopi o'r gorchymyn terfynol yn yr achos neu'r cofnod o unrhyw gytundeb sy'n dod â'r achos i ben.

4 Rhowch fanylion ynghylch sut mae eich cleient wedi cael budd o'r achos. Cynhwyswch: arian; tir, gan gynnwys yr hawl i fyw mewn ty, fflat neu dir arall yn ogystal â bod yn berchen arno; ac unrhyw eiddo neu hawl gwerthfawr arall. (Parhewch â'r adran hon ar ddalen wahanol os bydd hynny'n ofynnol).

## Beth yw gwerth yr eiddo a adenillwyd neu a gadwyd?

4 Rhowch werth pob eitem o eiddo a adenillwyd neu a gadwyd.

4 Rhowch rif/rhifau teitl unrhyw dir, ty/tai neu fflat(iau) a adenillwyd neu a gadwyd: ______________________

4 Mae angen i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) wybod faint oedd y gwerth adeg ei adennill neu ei gadw.  Os cytunwyd ar werth ty neu fflat, neu ei gymryd yn ganiataol, yn ystod achos, nodwch y gwerth hwnnw a'r swm sy'n ddyledus o dan y morgais neu unrhyw dâl a gofrestrwyd ar yr eiddo cyn ei adennill neu ei gadw. Os yw'r eiddo wedi cael ei werthu, nodwch yr enillion. (Parhewch â'r adran hon ar ddalen wahanol os bydd hynny'n ofynnol).

## Eithriadau

4 Nodwch pam eich bod yn credu bod yr eiddo wedi'i eithrio o'r tâl statudol, gan ystyried rheoliad 44 o Reoliadau Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000 (fel y'u diwygiwyd) neu reoliad 94 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cyffredinol) 1989 - os cychwynnwyd yr achos cyn 1af Ebrill 2013; neu reoliadau a wnaed o dan adran 25 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

## Ardystiad Cyfreithiwr

Rwy'n ardystio bod y wybodaeth a ddarparwyd yn gywir.

Llofnodwyd: ______________________________ Dyddiad: ____/____/________

(Ymgyfreithiwr Awdurdodedig. Rhaid bod gan y cyfreithiwr neu'r ymgyfreithiwr awdurdodedig dystysgrif ymarfer ddilys. Ni fydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn talu am unrhyw waith a wneir yn ystod unrhyw gyfnod pan nad oes gan y cyfreithiwr dystysgrif ymarfer).

Enw: ______________________________________________

## Talu'r Gost

☐ Rwyf eisoes wedi anfon siec gwerth £ __________ at yr ACC i dalu am y diffyg yn y Gronfa.

☐ Rwy'n amgáu siec gwerth £__________ sef y cyfanswm a adenillwyd neu a gadwyd.

☐ Rwy'n amgáu siec gwerth £__________ sef y cyfanswm a adenillwyd hyd yn hyn.

☐ Rwy'n amgáu siec gwerth £ __________ ar gyfer yr holl gostau, gan gynnwys cyngor cyfreithiol a ffioedd cymorth, a gafwyd neu sydd i'w cael yn erbyn y Gronfa. Rwy'n cadarnhau na fydd cyfanswm y costau a hawlir o arian cyhoeddus yn uwch na'r swm hwn. Dymunaf ryddhau gweddill yr arian rwy'n ei ddal i fy nghleient.

☐ Mae'r arian i'w ddefnyddio i brynu cartref i fy nghleient neu ei ddibynyddion. Mae fy nghleient wedi llenwi a llofnodi'r dudalen/tudalennau perthnasol ar y ffurflen hon.

☐ Adenillion nad ydynt yn arian - rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

## Llenwch y dudalen hon os yw eich cleient am i ni ohirio gorfodaeth

Os yw eich cleient yn dymuno i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol sicrhau tâl yr Arglwydd Ganghellor ar gartref dibynnydd neu ddibynyddion, yn hytrach na'i gartref ef neu ei chartref hi, rhowch fanylion y trefniant yn cynnwys y cyfeiriad lle bydd eich cleient yn byw.

**Ym MHOB achos:**

4 Cyflwynwch gopi o Ardystiad y Llys fod yr eiddo i'w ddefnyddio fel cartref.
Amcangyfrifwch beth fydd cyfanswm yr hawliad am arian cyhoeddus a wnaed neu a wneir gennych chi neu gan unrhyw gyfreithiwr/wyr arall £ ______________

A oes unrhyw un arall yn berchen ar yr eiddo hwn ar y cyd â'ch cleient, neu a fyddant yn y dyfodol?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os 'Oes' rhowch fanylion y trefniant (arfaethedig) yn cynnwys enwau'r perchennog/perchnogion a'u diddordeb manteisiol priodol yn yr eiddo a diddordeb eich cleient, ac oni bai fod y llys wedi rhoi gorchymyn, pam yr ystyrir bod hyn yn briodol. Cadarnhewch y bydd unrhyw gyd berchennog yn cytuno i gofrestru tâl yr Arglwydd Ganghellor.

Oni bai eich bod yn mynd i gofrestru tâl yr Arglwydd Ganghellor eich hun, rhowch eich cyfeiriad, yn cynnwys eich cod post, ac os yw'n dir cofrestredig, rhowch rif y teitl.

Pris prynu'r eiddo £ ______________

Maint morgais/morgeisi blaenorol £ ______________

Cyfraniad y cleient at y pris prynu £ ______________

Cyfraniad unrhyw berson arall at y pris prynu £ ______________

Os yw eich cleient yn prynu cartref newydd, a gwblhawyd y trafodyn? ☐ Do ☐ Naddo

A yw eich cwmni'n mynd i drosglwyddo cartref newydd i'ch cleient, neu drosglwyddo'r cartref presennol i'w unig enw ef/hi? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os felly, hoffai'r ACC i chi gofrestru tâl yr Arglwydd Ganghellor yr un pryd â'r trosglwyddiad. Os yw cwmni arall yn ei drosglwyddo, rhowch eu manylion cyswllt i ni.

Dyddiad cwblhau arfaethedig: ____/____/____

Os yw eich cleient wedi digolledu neu adennill arian i brynu cartref heblaw am y cartref ei hun, a oedd yr achosion yn achos teulu (fel y diffiniwyd yn Rheoliad 96 (1) o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cyffredinol) 1989 a Rheoliad 2(1) o Reoliadau Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000) neu reoliadau a wnaed o dan adran 25 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, fel y bo'n briodol? ☐ Oeddent ☐ Nac oeddent

## Gohirio gorfodaeth - parhad

Rhowch fanylion bras o incwm blynyddol eich cleient

Os yw'n gymwys, rhowch fanylion bras o incwm blynyddol holl berchnogion/ perchnogion arfaethedig yr eiddo:

A yw eich cleient yn gallu benthyg cyllid gan unrhyw forgeisiai presennol neu ffynhonnell arall i ad-dalu peth neu'r cyfan o'i atebolrwydd cost statudol ef neu hi?

☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os ydy, cadarnhewch y cyfanswm y gellir ei fenthyg: £____________

Os nac ydy, nodwch pa gamau y mae eich cleient wedi'u cymryd i geisio benthyg cyllid o forgais sy'n bodoli eisoes neu o ffynhonnell arall. Atodwch dystiolaeth ddogfennol i ddangos pa gamau a gymerwyd gan eich cleient.

## ASIANTAETH CYMORTH CYFREITHIOL

## HYSBYSEB PREIFATRWYDD

### Pwrpas

Mae’r hysbyseb preifatrwydd yma yn gosod allan y safonau y gellir disgwyl gael gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol pan fydden ni’n gofyn am neu dal ar wybodaeth bersonol (‘data personol’) amdanoch; sut byddech chi yn gallu cael copi o’ch data personol; a beth allwch chi wneud os nad ydy’r safonau yn cael eu cyrraedd.

Mae’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn asiantaeth weithredol o’r Weinidogaeth Cyfiawnder (GC). GC yw rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym yn dal. Mae’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn casglu a phrosesu data personol ar gyfer ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus cysylltiedig. Ein swyddogaeth gyhoeddus yw darparu cymorth cyfreithiol.

### Am dan wybodaeth bersonol

Mae data personol yn wybodaeth amdanoch chi fel unigolyn. Gall fod eich enw, cyfeiriad neu rif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd yn eich cais am gymorth cyfreithiol megis eich amgylchiadau ariannol a gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw achos cyfreithiol cyfredol neu flaenorol sydd yn eich parthed.

Rydym y gwybod pwysigrwydd diogelu preifatrwydd cwsmeriaid ag i gydymffurfio gyda deddfau diogelu data. Mi wnawn i amddiffyn eich data personol a dim ond datgelu lle bu yn gyfreithiol i wneud, neu hefo eich caniatâd.

### Mathau gwahanol o ddata personol rydym yn prosesu

Rydym ond yn prosesu data personol sydd yn berthnasol i’r gwasanaethau rydym yn darparu i chi. Bydd y data personol y byddech chi’n darparu yn eich cais am gymorth cyfreithiol ond yn cael eu defnyddio ar gyfer y pwrpasau isod.

### Pwrpas prosesu a sail gyfreithlon ar gyfer prosesu

Pwrpas pan fod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn casglu a phrosesu’r data personol byddech chi yn darparu drwy lenwi’r ffurflen hon yw ar gyfer galluogi darparu cymorth cyfreithiol. Ein sail gyfreithlon yw ‘cyflawni perfformiad unrhyw dasg of fewn diddordeb y cyhoedd neu ar gyfer awdurdod swyddogol’ fel y nodir yn Erthygl 6(1) o GDPR y DU. Y tasgau yw’r rheini nodir yn Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Chosbi a dedfrydu Troseddwyr 2012.Yn benodol, byddwn ni yn defnyddio eich data personol fel a ganlyn:

- Penderfynu os ydych yn gymwys i gymorth cyfreithiol, ai byddech yn gorfod talu cyfraniad tuag at gostau cymorth cyfreithiol ac i gynorthwyo’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gasglu’r cyfraniadau, os yw’n briodol.

- Asesu hawliadau eich darparwr(wyr) cyfreithiol ar gyfer taliadau o gronfa cymorth gyfreithiol am y gwaith maent wedi ei gynnal ar eich cyfer.

- Wrth gynnal archwiliadau sicrwydd cyfnodol ar ffeiliau cymorth cyfreithiol i sicrhau bod penderfyniadau wedi’u gwneud yn gywir.

- Cynhyrchu ystadegau a gwybodaeth ar ein prosesau i alluogi ni i wella ein prosesau ac i gynorthwyo ni i ddarparu ein swyddogaethau.

Pe bai'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn methu casglu'r wybodaeth bersonol, ni fydden yn gallu arwain y gweithgareddau uchod, sydd yn golygu na fydden ni'n gallu darparu cymorth cyfreithiol i chi.

Rydym yn casglu 'categorïau arbennig o ddata personol'. Cesglir y data hwn lle bo angen at y dibenion a nodir uchod. Yr amod ar gyfer prosesu'r data hwn yw Erthygl 9(g) o GDPR y DU – Rhesymau o fudd cyhoeddus sylweddol. Mae ein hamod Atodlen 1 cysylltiedig at ddibenion Statudol a Llywodraethol. Rydym hefyd yn casglu'r data hwn at ddibenion monitro cydraddoldeb. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd categorïau arbennig o ddata personol yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn eich adnabod chi, neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'ch cais am gymorth cyfreithiol.

Rydym yn casglu 'data personol yn ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau neu fesurau diogelwch eraill'. Cesglir y data hwn lle bo'n berthnasol at y dibenion a nodir uchod. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n Awdurdod Swyddogol at ddibenion Erthygl 10 GDPR y DU.

## Gyda phwy gall y wybodaeth gael eu rhannu hefo

Weithiau, bydden ni angen rhannu'r wybodaeth bersonol rydym ni'n prosesu gyda sefydliadau eraill. Pan fydd hyn yn angenrheidiol, bydden ni'n cydymffurfio gyda holl agweddau sydd yn berthnasol i ddeddfau diogelu. Gall y sefydliadau y gallwn rannu eich gwybodaeth bersonol hefo gynnwys:

- Eich Darparwr(wyr) cymorth cyfreithiol a gyfarwyddwyd, gan gynnwys unrhyw eiriolwr a gyfarwyddir gan gyfreithiwr cymorth cyfreithiol
- Awdurdodau cyhoeddus megis: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS), Gwasanaeth Cyllid a Thollau EM (HMRC), Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Swyddfa Gartref a Chofrestrfa Tir EM;
- Mudiadau sydd ddim yn gyhoeddus megis: Asiantaethau cyfeirio credyd fel Equifax a TransUnion ac ein partneriaid casglu dyled Advantis Credit Ltd;
- Os bydd gwybodaeth ffug neu anghywir yn cael eu darparu neu os bydd twyll wedi ei nodi, gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag asiantaethau atal twyll yn gyfreithlon i ganfod ag atal twyll gwyngalchu arian. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data yn benodol â CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau at ddibenion atal twyll, ymchwilio ac erlyn; ag
- Lle mae dyled yn ddyledus i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data ag awdurdodau cyhoeddus fel CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid casglu dyledion fel Advantis Credit Ltd at ddibenion olrhain, casglu dyledion a gorfodi.

Gallwch gysylltu ein Swyddog Diogelu Data ar gyfer rhagor o wybodaeth ar y sefydliadau rydym yn gallu rhannu eich gwybodaeth bersonol hefo.

## Proseswyr Data

Gallwn gontract hefo proseswyr data trydydd parti i ddarparu e-bost, gweinyddiaeth system, rheolaeth dogfennau ag gwasanaethau storio TG. Bydd unrhyw ddata personol a rannwyd

hefo’r proseswyr data ar gyfer y pwrpas yma yn cael ei lywodraethu gan gymalau contract enghreifftiol o dan y ddeddf diogelu data.

Rydym yn contractio â Advantis Credit Ltd fel prosesydd data ar gyfer casglu a gorfodi cyfraniadau cymorth cyfreithiol troseddol. Mae unrhyw ddata personol a rennir gyda’r prosesydd data ar gyfer y pwrpas hwn yn cael ei lywodraethu gan gymalau contract enghreifftiol o dan gyfraith diogelu data.

## Awtomeiddio gwneud penderfyniadau

Nid ydym yn defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau awtomatig yn unig o fewn y diffiniad yn Erthygl 22(1) o GDPR y DU. Bydd y penderfyniad terfynol ar gais am gymorth cyfreithiol neu hawliad am gostau mewn achos cymorth cyfreithiol bob amser yn cael ei wneud gan bod dynol. Gallai hwn fod yn aelod o’n staff, neu’n aelod o staff Darparwr cymorth cyfreithiol sy’n gweithredu dan awdurdod dirprwyedig gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

## Manylion am drosglwyddiadau amddiffyn ag i drydedd gwlad

Mae’n bosibl y bydd data personol yn cael ei drosglwyddo i leoliadau yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) lle bo’n ofynnol gan ein proseswyr data ar gyfer lletya, storio a diogel wrth gefn o’n gwasanaethau TG. Gwneir trosglwyddiadau o’r fath ar sail penderfyniadau digonolrwydd rhwng y DU a’r AEE yn unol ag Erthygl 45 o GDPR y DU.

## Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gasglwyd

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei gadw am hirach na fydd angen ar gyfer pwrpasau cyfreithlon y mae wedi'i gasglu a'i brosesu ar ei gyfer. Mae hyn i sicrhau nad yw’r wybodaeth a ddarparwyd yn dod yn anghywir, wedi ei ddyddio neu amherthnasol. Mae’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi gosod cyfnodau cadw ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym ni’n casglu, a gall canfod ragor am hyn drwy ein gwefan:

https://www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules

Gallwch gysylltu ein Swyddog Diogelu Data ar gyfer cael copi o’n polisïau cadw ni.

Tra bydden ni’n cadw eich data personol, mi wnawn sicrhau ei fod yn cael ei gadw yn saff a’i ddiogelu rhag ei golli, camdriniaeth neu gyrchiad a datgeliad anawdurdodedig. Unwaith bydd y cyfnod cadw yn dod i ben, bydd eich data personol yn cael eu dileu a’i ddinistrio yn saff ac yn barhaol.

## Mynediad i wybodaeth bersonol

Gallwch ganfod os rydym yn dal unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch drwy wneud ‘Cais Mater Mynediad’. Os ydych eisiau gwneud y cais yma, os gwelwch yn dda, cysylltwch â:

Tîm Datgelu – Pwynt Post 10.25
Gweinidogaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Data.access@justice.gov.uk

## Pan fydden ni’n gofyn am ddata personol

Rydym yn addo i adael chi wybod pam bod angen eich data personol ag dim ond i ofyn am eich data personol rydym angen ac nid casglu gwybodaeth ormodol neu amherthnasol.

Pan fydden ni’n casglu eich data personol, rydym ni hefo cyfrifoldebau, ac rydych chi hefo hawliau. Maent yn cynnwys:

- Gallwch ymneilltuo cydsyniad bryd bynnag, lle bo yn berthnasol;
- Gallwch gyflwyno cwyn hefo’r awdurdod arolygol;
- Bydden ni’n diogelu a sicrhau nad oes gan unrhyw un anawdurdodedig mynediad i’r data;
- Bydd eich data personol yn cael eu rhannu hefo sefydliadau eraill am bwrpasau cyfreithlon yn unig;
- Ni fydden ni’n dal ar y wybodaeth am gyfnod hirach na sydd yn angen;
- Ni fydden ni’n gwneud eich data personol ar gael ar gyfer pwrpasau hysbysebu heb eich caniatâd chi; ac
- Bydden ni’n ystyried eich cais i gywiro, rhoi’r gorau i brosesu neu ddileu eich data personol.

## Gallwch gael rhagor o fanylion ar:

- Cytundebau rydym ni hefo sefydliadau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- Amgylchiadau lle bydden ni’n pasio ymlaen eich gwybodaeth bersonol heb ddweud wrthoch chi, er enghraifft, i helpu gydag atal neu ganfod trosedd neu i gynhyrchu ystadegau anhysbys;
- Ein cyfarwyddiadau i staff ar sut i gasglu, defnyddio neu ddileu eich gwybodaeth bersonol;
- Sut rydym yn gwirio fod y wybodaeth a dalwyd gennym yn gywir ac yn gyfredol; ac
- Sut i wneud cwyn.

Ar gyfer ragor o wybodaeth am yr uchod, os gwelwch yn dda, cysylltwch hefo:

Y Swyddog Diogelu Data
Gweinidogaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

dataprotection@justice.gov.uk

## Cwynion

Pan fydden ni'n gofyn am wybodaeth, bydden ni'n cydymffurfio hefo'r gyfraith. Os ysych yn ystyried bod eich gwybodaeth wedi eu delio hefo yn anghywir, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor annibynnol ar ddiogelwch data. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Lôn Ddŵr
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF
Tel: 0303 123 1113
www.ico.org.uk

## Datganiad y cleient - achosion gohirio yn unig

Mae'r holl wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir.

Rwy'n cytuno bod yr Arglwydd Ganghellor yn cael arwystl ar yr eiddo a ddisgrifir uchod.

Rwy'n cytuno y gall yr Arglwydd Ganghellor godi llog syml arnaf am y swm sy'n ddyledus gennyf ar y gyfradd a nodir yn y rheoliadau. Rwy'n deall y gallai cyfradd y llog newid o bryd i'w gilydd.

Rwy'n cytuno i beidio â gwneud unrhyw beth, ac i beidio â gadael i unrhyw un arall wneud unrhyw beth, a fydd yn lleihau gwerth yr eiddo.

Rwy'n deall y gallaf wneud taliadau er mwyn lleihau fy nyled. Bydd yr ACC yn defnyddio unrhyw daliadau i dalu'r llog sy'n ddyledus gennyf. Os oes unrhyw arian yn weddill, bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ei ddefnyddio i leihau'r prif swm.

Llofnodwyd: ______________________ Dyddiad: ____/____/____

Enw (mewn llythrennau bras) ______________________

Rhif cyfeirnod yr achos ______________________

## Tâl cytundebol - tir cofrestredig Codi tâl ar y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol am y cyfan

**Cofrestrfa Tir E M** Deddf Cofrestru Tir 2002

Dylech lenwi'r dudalen hon os ydych wedi adennill arian ac rydych yn dymuno prynu cartref gyda'r arian hwnnw, neu os ydych yn dymuno trosglwyddo arwystl yr Arglwydd Ganghellor i eiddo newydd, neu os ydych yn trosglwyddo'r eiddo sy'n ddarostyngedig i'r arwystl i fwy nag un enw; ac mae'r eiddo yn dir COFRESTREDIG. Os ydych chi'n llenwi'r dudalen hon o'r ffurflen, rhaid ei llofnodi a'i hardystio ar y gwaelod. Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon os cafodd yr eiddo y cofrestrir y gost ar ei gyfer ei adfer neu ei gadw ei hun yn y trafodion, ac os y cleient a ariennir yw'r unig berchennog.

## Eiddo

Rhif teitl yr eiddo ______________________ Dyddiad: ____/____/________

Cyfeiriad yr Eiddo ______________________

______________________ Cod Post: ______________

---

## Diffiniadau

Y Pridiannwr/Pridianwyr
(Rhowch enwau a chyfeiriadau llawn holl berchnogion cofrestredig y tir) ______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

ACC — Ystyr ACC yw Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yw Asiantaeth Weithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac ar sail hon y mae'r Arglwydd Ganghellor yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, y mae ganddo awdurdod i weinyddu'r tâl statudol ar ei rhan.

Y Prif swm — Y symiau a sicrhawyd gan y tâl statudol, sy'n codi o dan adran 16(6) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1988, neu adran 10(7) o Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 o ran cyfrif ______________________
(Rhowch eich enw llawn yma)

gyda'r Gronfa CGC o dan rif/rhifau cyfeirnod achos ______________________

______________________
(Rhowch eich rhif//rhifau cyfeirnod achos)

Y Rheoliadau — Rheoliadau (Cyffredinol) Cymorth Cyfreithiol Sifil 1989 ac unrhyw ddiwygiad at y rheiny (p'un ai cyn neu ar ôl dyddiad y tâl hwn) ac unrhyw reoliadau eraill a allai, ar ôl dyddiad y tâl hwn, ei ddisodli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar ôl ei ddiwygio neu heb ei ddiwygio.

---

1. Mae'r Pridiannwr/Pridianwyr sydd â gwarant teitl llawn, drwy gyfrwng morgais cyfreithiol, y rhif teitl uchod gyda thaliad i'r Arglwydd Ganghellor o:
   (a) y prif swm;
   (b) llog syml ar y prif swm, ar y gyfradd a ragnodwyd gan y Rheoliadau, ac a gyfrifir ac sy'n daladwy yn unol â'r Rheoliadau.

2. Daw'r swm a sicrhawyd gan y tâl hwn yn ad-daladwy os digwydd unrhyw un o'r canlynol:
   (a) Unrhyw ddigwyddiad a fyddai'n achosi i'r un swm fod yn ad-daladwy pe bai'r Taliad hwn yn daliad a ohiriwyd o dan reoliad 97(3) o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cyffredinol) 1989; rheoliad 52 o Reoliadau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000; neu reoliad 22(1) o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl Statudol) 2013.
   (b) y Pridiannwr/Pridianwyr (neu unrhyw un o'i olynwyr ef/hi mewn teitl) yn ymarfer unrhyw un o'i bwerau/ei phwerau o dan adran 23 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002.

# Llofnodion

4 **Rhaid llofnodi'r taliad hwn gan holl berchnogion cofrestredig y tir a rhaid ardystio pob llofnod**

**Llofnodwyd fel gweithred gan**

Rhowch enw'r Pridiannwr/Pridianwyr mewn llythrennau bras

Llofnod y Pridiannwr/Pridianwyr

**Ym mhresenoldeb**

Rhowch enwau'r tystion mewn llythrennau bras

Llofnodion y tystion

Cyfeiriadau'r tystion

Cod Post

Cod Post


© Hawlfraint y Goron